**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 20 Chwefror 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 6 Mawrth 2024 |

## PWNC

Eitem 6: ADOLYGIAD POLISI DIOGELU

## PENDERFYNIAD

Mabwysiadu'r 'Polisi a Chanllawiau ar gyfer Diogelu plant ac Oedolion sydd mewn perygl o gam-drin ac esgeulustod' diwygiedig ynghyd a'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Panel Strategol Diogelu.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r Polisi yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei gyfrifoldeb statudol ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gyda'r fersiwn presennol yn addasiad o Bolisi a grëwyd yn 2013, roedd yn amserol i baratoi polisi o'r newydd yn hytrach na diweddaru'r ddogfen yn unol â'r drefn arferol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 20 Chwefror 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 6 Mawrth 2024 |

**PWNC**

Eitem 7: CYTUNDEB CYFLAWNI CYNLLUN DATBLYGU LLEOL - YMATEB I'R CYFNOD YMGYNGHORI CYHOEDDUS

**PENDERFYNIAD**

Bu i'r Cabinet gytuno i:

i. Gyflwyno'r cytundeb Cyflawni Drafft diwygiedig i'r Cyngor Llawn ar gyfer eu cymeradwyaeth
ii. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Adran wneud addasiadau golygyddol er mwyn sicrhau cywirdeb yn ôl yr angen.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae paratoi a chymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni yn gam cyntaf statudol yn rhan o'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd.

Yn unol â'r drefn llywodraethu yn gysylltiedig â pharatoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd a materion Polisi Cynllunio eraill, mae'r Cytundeb Cyflawni eisoes wedi ei gyflwyno i'r Gweithgor Polisi Cynllunio ar gyfer eu hystyriaeth.

Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn er gyfer derbyn sêl bendith derfynol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 20 Chwefror 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 6 Mawrth 2024 |

## PWNC

Eitem 8: YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH Cymru: 'PAPUR GWYN AR ROI DIWEDD AR DDIGARTREFEDD YNG NGHYMRU'

## PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd cynnwys yr ymateb drafft i ymgynghoriad y Llywodraeth ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi papur gwyn ar 'roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru', ac mae ymateb drafft wedi ei baratoi ar ran y Cyngor. Mae'r Cabinet yn rhoi ei sêl bendith i'r ymateb drafft oherwydd sgil effeithiau posib all y newidiadau arfaethedig eu cael ar adnoddau a chyllidebau'r Cyngor.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 20 Chwefror 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 6 Mawrth 2024 |

**PWNC**

Eitem 9: CYMERADWYO CYNLLUN CYDWEITHIO (CANOLFAN MONITRO ARFORDIROL CYMRU)

---

**PENDERFYNIAD**

Bu i'r Cabinet gytuno i:

i. Wynedd barhau i gyd-weithio gyda'r Ganolfan Monitro Arfordirol Cymru a neilltuo adnoddau ar gyfer hynny
ii. Dirprwyo'r awdurdod i Bennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC mewn ymgynghoriad a Phennaeth Adran Gyfreithiol i gymeradwyo'r Cytundeb Cydweithio.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae angen cadarnhad o gyfraniad Gwynedd fel Aelod o Fwrdd y Ganolfan Monitro Arfordirol Cymru, gan gyflwyno'r Cytundeb Cydweithio sydd wedi ei lunio gan y Consortiwm a'i dderbyn yn ffurfiol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 20 Chwefror 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 6 Mawrth 2024 |

**PWNC**

Eitem 10: DIWYGIO'R DREFN TRETH CYNGOR – YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU: TRETH GYNGOR DECACH: CAM 2

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd cynnwys yr ymateb drafft i ymgynghoriad y Llywodraeth ar ddiwygio Treth Cyngor yng Nghymru.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddiwygio Treth Cyngor yng Nghymru, yn bennaf ar ba mor bell dylid cynnal diwygiad, a pha mor gyflym dylid gweld hyn. Mae angen sêl bendith y Cabinet i'r ymateb drafft oherwydd y sgil effeithiau posib all y newidiadau arfaethedig eu cael ar drigolion Gwynedd a chyllideb y Cyngor.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 20 Chwefror 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 6 Mawrth 2024 |

**PWNC**

Eitem 11: CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-2028 – ADOLYGIAD 2024/25

**PENDERFYNIAD**

Bu i'r Cabinet gymeradwyo Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028 – Adolygiad 2024/25 (y Cynllun) i'w gyflwyno i'r Cyngor ar y 7fed o Fawrth 2024.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mabwysiadwyd Cynllun y Cyngor 2023-28 yn wreiddiol gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 2il o Fawrth 2023. Pwrpas adolygu'r Cynllun yw edrych ar le mae'r Cyngor wedi ei gyrraedd ar ôl blwyddyn o weithredu, gan wneud yn siŵr ein bod yn parhau i wneud y pethau iawn.

Mae'r angen sicrhau fod cytundeb ar gynnwys y Cynllun, gan gynnwys unrhyw ddiweddariadau sydd wedi ei wneud iddo, cyn ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar gyfer ei fabwysiadu yn ei gyfarfod ar y 7fed o Fawrth 2024.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 20 Chwefror 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 6 Mawrth  2024 |

**PWNC**

Eitem 12: CYNLLUN ARBEDION 2024/25

**PENDERFYNIAD**

Bu I'r Cabinet gytuno i:

a) Cymeradwyo'r arbedion a thoriadau a restrir yn Atodiad A (£4.4M) i'w defnyddio fel cyfraniad tuag at ein bwlch cyllidol yn 2024/25, a chomisiynu'r Adrannau i symud ymlaen i weithredu y cynlluniau gan ddal sylw at y materion a amlygwyd yn yr adroddiad.
b) Gosod cyllideb gytbwys yn 2024/25, cymeradwyo gwerth y toriadau ac arbedion a restrir yn Atodiad B (£0.8M) a nodi y bydd angen camau pellach cyn gallu dod i benderfyniad terfynol i'w gweithredu, fel amlinellir yn 2.13, gan ddefnyddio arian wrth gefn i bontio yr arbedion na fydd yn cael eu cyflawni yn 24/25.
c) Gwneud darpariaeth o £0.52M i gyfarch y lefel risg sydd yn ynghlwm â gwireddu y cynllun toriadau hwn.
d) Dirprwyo'r hawl i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Cyllid, i wneud addasiadau i'r Cynllun Arbedion hwn o fewn y cyfansymiau Adrannol wrth i aeddfedrwydd y cynlluniau a restrir yn Atodiad A a B ddatblygu, o fewn y cyfansymiau cyllidol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r Cyngor bellach yn ymwybodol o beth fydd lefel Grant Cynnal Refeniw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25, ac y bydd yn sylweddol is na lefel chwyddiant a chryn bellter islaw'r hyn fydd  Cyngor ei angen i gynnal y lefel gwasanaeth presennol.

Nodir fod y Cyngor yn wynebu sefyllfa ble mae adrannau yn gorwario, yn bennaf oherwydd cynnydd parhaus yn galw am wasanaethau a'i bod yn amhosib erbyn hyn i rai gwasanaethau megis digartrefedd, gofal plant, gofal oedolion a chludiant ysgolion allu gweithredu o fewn eu cyllideb bresennol. Canlyniad y cynnydd mewn galw, yr angen i ddarparu cyllideb uwch ar gyfer yr adrannau sydd bellach methu ymdopi a'u cyllideb bresennol, a'r grant Cynnal Refeniw isel gan y Llywodraeth, yw bod y Cyngor yn wynebu bwlch ariannol eleni o £14.9m.

O ganlyniad mae'r adroddiad yn amlinellu sut mae' Cyngor yn mynd ati i ganfod y toriadau hyn a sicrhau cymeradwyaeth y Cabinet i'w gweithredu ar mwyn gallu gosod

cyllideb 2024/25.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 20 Chwefror 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 6 Mawrth 2024 |

**PWNC**

Eitem 13: CYLLIDEB 2024/25

---

**PENDERFYNIAD**

1) Sefydlu cyllideb o £330,590,040 ynghyd ag unrhyw arian ychwanegol a dderbynnir yn y setliad terfynol ar gyfer 2024/25 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £232,092,110, gan ychwanegu unrhyw gynnydd yn y grant a dderbynnir yn y setliad terfynol, a £98,497,930 o incwm o'r Dreth Cyngor (sy'n gynnydd o 9.54%).
2) Sefydlu rhaglen gyfalaf o £85,224,800 yn 2024/25 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.
3) Fod y Grant Llywodraeth ychwanegol terfynol a dderbynnir uwchlaw y £232,092,110 – a amcangyfrifir i fod oddeutu £969,000 – yn cael ei ddefnyddio i leihau'r bwlch o £2M sydd heb ei gyfarch yn ein cynlluniau ariannol yn 2024/25 ac yn gorfod cael ei gyfarch o gronfeydd am eleni fel y cyfeirir ato ym mharagraff 5.4.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Rhaid i'r Cyngor Llawn osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25.

Gosodir y gyllideb hon mewn cyfnod ble mae awdurdodau lleol Cymru yn wynebu heriau ariannol, yn arbennig yng nghyd-destun chwyddiant cyffredinol wedi cyrraedd lefelau yn 2022/23 a 2023/24 nas gwelwyd ei debyg ers degawdau ac mae effaith hynny wedi gweithio ei ffordd drwy'r gyllideb 2024/25.

Mater i'r Cyngor Llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor ar gyfer 2024/25 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad. Mae'r adroddiad yn nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2024/25, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2023/24.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 20 Chwefror 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 6 Mawrth 2024 |

**PWNC**

Eitem 14: ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS ADRAN ECONOMI A CHYMUNED

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 20 Chwefror 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 6 Mawrth 2024 |

**PWNC**

Eitem 15: ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL A'R GWASANAETH CYFREITHIOL

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---